

Cwrs Ieuentid

Cynhelir y Cwrs Ieuentid nesaf yng Ngoleg y Bala o nos Wener, Chwefror 16 hyd ddydd Sul Chwefror 18, sef diwedd y gwyliau hanner tymor. Daw rhagor o wybodaeth yr wythnos nesaf.

CIC

Bydd CIC yn ail gychwyn yn Capel Coch nos Wener yr wythnos hon, Ionawr 19 am 7.00 o'r gloch. Mae'n debyg y bydd criw Coleg y Bala yn dod i arwain y cyfarfod unwaith eto.

Bocs bwyd

Rydym yn dal i dderbyn bwydydd yn Capel Coch at Fanc Bwyd Caernarfon.

Clywsom lawer dros y misoedd diwethaf am y defnydd cynyddol a wneir o'r Banc Bwyd ar draws y wlad.

Gallwch roi'r bwydydd yn y bocs casglu sydd yng nghyntedd Capel Coch.

Ar y We Gwefan yr Ofalaeth

Cofiwch fod gan yr Ofalaeth wefan sy'n cynnwys gwybodaeth am yr eglwysi a'u gwaith. Mae copi o *Gronyn* yn cael ei osod ar y wefan bob nos Sul, ac felly os na chawsoch gopi yn y capel am unrhyw reswm mae modd ei ddarllen ar y wefan. Yn syml iawn, chwiliwch am gronyn.org

Y mis nesaf - Deiniolen

Ionawr 21

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Ionawr 28

5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts

Chwefror 4

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ionawr 21: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Ionawr 19: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 21: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts, Porthaethwy. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Llun, Ionawr 15: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Ionawr 19: Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 21: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Ionawr 21: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch ac oedfa am 2.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ionawr 21: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Ionawr 21

10.00 a.m. - Y Parchg Eifion Williams
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts

Ionawr 28

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Chwefror 4

10.00 a.m. - Y Parchg Harri Parri
11.15 a.m. - Ysgol Sul



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 755: 14 Ionawr, 2018

Bwthyn Stamford

ffyrdd ar eu tai. Ond y mae'r Gyfraith yn diogelu'r 'hawl i olau', a dyna sail dadl y teulu Crostwaite.

Daeth y Diwygiad Protestannaidd, y bu i ni ei ddatlu y llynedd, â goleuni'r Efengyl i bobl ar hyd ac ar led cyfandir Ewrop. Roeddent wedi eu hamddifadu o'r goleuni hwnnw am ganrifoedd. Ond gyda'r Diwygiad a'r cyfle a gaed i bobl ddechrau darllen y Beibl drostynt eu hunain, yn eu heithoedd eu hunain, taenydd golau llachar newydd ar y gwirioneddau mawr am ras Duw a ffydd achubol yn Iesu Grist.

Mae ar y byd angen y goleuni o hyd. Oes, mae ar bawb angen gras a chariad Duw yn Iesu Grist. Braint fawr pob un sy'n credu'r Efengyl yw cael rhan yn y gwaith o gyflwyno'r goleuni i eraill trwy ddangos Iesu ym mhob ffordd bosibl. Trwy ddweud am Iesu, a thrwy weithredu'n debyg iddo mewn cariad a thosturi y mae ei bobl yn gyfryngau i'r goleuni lewyrchu yn y byd. 'Boed i'ch goleuni chwithau lewyrchu gerbron eraill,' medd Iesu, 'er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da chwi a gogoneddu eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd' (Mathew 5:16).

Gofalwn nad ydym yn gwneud unrhyw beth sy'n cuddio'r goleuni rhag eraill. A boed i Dduw yn ei ras ein cadw rhag bod yn stadiwm tywyll sydd, trwy ein mudnod a'n diffyg cariad a'n beiau mawr, yn atal goleuni'r Efengyl rhag llewyrchu gerbron ein cymdogaion a'n cyfeillion ninnau.

'Tŷ Nant' sydd ar ei fur heddiw, ond gwelais gyfeirio at y bwthyn hefyd fel 'Tŷ'n Nant' ac o bosibl 'Tŷ'r Nant'. Mae'n swatio yng nghesail wal Stad y Faenol wedi ngwaelod Nant y Garth. Nid bod bonheddwr hael y Faenol wedi bwriadu i'r wal gysgodi'r bwthyn rhag pob tywydd chwaith; cael ei orfodi a wnaeth i fynd â'r wal y tu cefn i'r bwthyn am fod ei berchennog wedi gwrthod ei werthu iddo.

Wn i ddim faint gostiodd wal y Faenol na faint o anhwylystod a achoswyd i ŵr y Plas gan berchennog Ty Nant. Ond draw yn Llundain heddiw mae safiad un teulu'n bygwth cynlluniau Clwb Pêl Chelsea i godi stadiwm newydd gwerth biliwn o bunnoedd ar safle ei stadiwm presennol yn Stamford Bridge. Mae'r teulu Crostwaite wedi cartrefu yn Stamford Cottages, lathenni yn unig o'r stadiwm, ers hanner canrif. Ac ers misoedd mae'r teulu'n gwrthwynebu cynlluniau Chelsea gan ddadlau y byddai'r stadiwm newydd anferth yn amddifadu eu cartref o oleuni trwy daflu cysgod parhaol dros y tŷ. Tra pery'r ddadl rhwng y teulu a'r clwb bydd cysgod dros yr holl gynllun; ac mae'n annhebygol y codir yr un fricsen o'r stadiwm newydd nes y bydd y ddadl wedi ei setlo.

Gall y mwyafrif ohonom gydymdeimlo â'r teulu hwn. Go brin y byddai neb ohonom yn croesawu datblygiad a fyddai'n golygu llai o olau i'n cartrefi. Yn aml, ni all pobl wrthwynebu codi adeiladau sy'n amharu mewn gwahanol

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Bydded i'r nefoedd foliannu
dy ryfeddodau, O ARGLWYDD,
a'th ffyddlondeb yng nghyn-
ulliad y rhai sanctaidd. Oherwydd pwy
yn y nefoedd a gymherir
â'r ARGLWYDD? Pwy ymysg y duwiau
sy'n debyg i'r ARGLWYDD, yn Dduw a
ofnir yng nghyngor y rhai sanctaidd, yn
fawr ac ofnadwy goruwch pawb o'i am-
gylch? O ARGLWYDD Dduw y lluoedd,
pwy sydd nerthol fel tydi,
O ARGLWYDD, gyda'th ffyddlondeb
o'th amgylch? Ti sy'n llywodraethu ym-
chwydd y môr; pan gyfyd ei donnau, yr
wyt ti'n eu gostegu' (Salm 89:5-9).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a
5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd
yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r
gloch gan Mrs Nerys Griffith.

Gwasanaethir yn Llanllechid am 2.00 o'r
gloch gan y Parchg Dewi T Morris,

Porthmadog. Bydd yr Ysgol Sul am
10.30 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r
gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol
Sul am 10.00 o'r gloch.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Cymdeithas Undebol

Yng Nghymdeithas Undebol Llanberis
yn Capel Coch nos Fawrth ddiwethaf bu
Mr Eifion Roberts, Sw'n y Gwynt, yn
dangos lluniau o rai o hen siopau Stryd
Fawr y pentref. Roedd yn noson ddfyfr
iawn, a gwelodd pawb ohonom mae'n
debyg sawl llun nad oeddem wedi ei
weld o'r blaen, a deffrowyd sawl atgof
am rai o siopau a chymeriadau'r pentref
o'r blynyddoedd a fu. Diolch yn fawr
iddo am noson hwyliog a diddorol.

Cyfarfod Chwarter

Bydd Annibynwyr Gogledd Arfon yn
cynnal eu Cyfarfod Chwarter nesaf yng
nghapel Tabernacl, Llanrwst nos Fercher,
Ionawr 31. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn
Nhalybontt fore fory, dydd Llun, Ionawr
15.

Agor y Llyfr

Byddwn yn ail ddechrau gwaith 'Agor y
Llyfr' yn Ysgol Gwaun Gynfi fore
Gwener nesaf, Ionawr 19. Hwn fydd ein
hymweliad cyntaf â'r Ysgol ers dechrau'r
flwyddyn newydd. Cofiwch y byddem
yn falch iawn o gael aelodau eraill i'r
tîm.

DAWN

Hyfforddi Gweithwyr Newydd

Wythnos i ddoe, mi fum yn Aberystwyth.
Roeddwn wedi cael gwahoddiad i arwain
un o gyfarfodydd hyfforddiant DAWN.

Sefydlwyd DAWN rai blynyddoedd yn
ôl erbyn hyn i ddarparu pob math o
hyfforddiant i weinidogion ifanc a phobl
eraill sy'n ymwneud â gwaith yr eglwysi
a'r Efengyl. Mae'r cyfarfodydd misol
hyn yn Aberystwyth wedi denu nifer dda
o bobl ers sawl blwyddyn. Un wedd yn
unig o genhadaeth DAWN yw'r rhain.

Tua dwsin o bobl oedd yno'r wythnos
ddiwethaf, ac yn ôl a ddeallais roedd dau
neu dri ohonynt yno am y tro cyntaf.
Roedd mwy nag un wedi methu â dod y
tro hwn hefyd. Yn amlwg, nid yw'n
bosibl i bawb gyrraedd Aberystwyth ar
gyfer pob cyfarfod, ond roedd yn amlwg
fod pawb yn cael blas ar y gymdeithas a'r
cyfarfodydd.

Pobl ifanc oedd y mwyafrif ohonynt, ac
mae'n siwr gen i mai dim ond tri ohonom
oedd dros 35 mlwydd oed. Roedd sawl
un yn iau o lawer na hynny. Mae'n dda
nodi hyn er mwyn dangos fod Duw yn
galw cenhedlaeth newydd o bobl ifanc
i'w wasanaethu o fewn yr eglwysi yma
yng Nghymru. Tueddwn i feddwl yn aml
nad oes neb yn dod o'r newydd i'r
gwaith, ond nid yw hynny'n wir o gwbl.

Roedd y criw a oedd yno ddydd Sadwrn
wedi teithio o wahanol ardaloedd, o'r De
a'r Gogledd. Roedd un hyd yn oed o
Batagonia (er y dylwn ddweud nad oedd
o wedi dod am y dydd yn unig).

Diolchwn bod Duw yn parhau i alw
gweithwyr newydd i'w Eglwys yng
Nghymru heddiw, a gweddiwn dros bob
gweinidog a phawb sy'n gwasanaethu'r
Efengyl mewn gwahanol feysydd.

Cronfa Gronyn

Yn ôl yr arfer, rhown sylw ar ddechrau
blwyddyn i Gronfa *Gronyn* sy'n help i
gyhoeddi *Gronyn* o Sul i Sul. Rydym yn
ddiolchgar am bob rhodd a dderbyniwn
at gostau cynhyrchu'r daflen wythnosol.

Os cofiwch, yr ydym wedi pwysleisio o'r
cychwyn cyntaf nad oes angen i neb dalu
am *Gronyn* gan mai rhan o'n gwasanaeth
i'n haelodau a'n cenhadaeth o fewn ein
cymdogaeth ydyw. Ond o'r cychwyn
bron mynegodd rhai ohonoch awydd i
gyfrannu at y costau. Gellir gwneud
hynny unrhyw bryd wrth gwrs er mai ar
ddechrau'r flwyddyn yn unig y tueddwn i
dynnu sylw at y Gronfa.

Erbyn hyn, wrth gwrs, mae rhai ohonoch
yn derbyn copi electroneg ohono bob
wythnos, ac mae modd i unrhyw un ei
ddarllen unrhyw bryd ar wefan yr
Ofalaeth. Ond mae'r rhan fwyaf
ohonoch wrth gwrs yn dal i dderbyn eich
copi papur bob wythnos. Ein gobaith yw
bod cymaint â phosibl yn ei dderbyn; ac
felly rhowch wybod i ni os gwyddoch am
rywun arall sy'n awyddus i'w gael.

Gellir anfon rhoddion i Gronfa Gronyn at
Drysorydd yr Ofalaeth trwy law'r
Gweinidog neu unrhyw un o swyddogion
yr eglwysi.

Cynllun Efe

Mae'n braf cael dweud bod Catrin
Hampton wedi cyrraedd adre'n saff ers
wythnos bellach o'r Unol Daleithiau.
Cafodd Catrin a'i gŵr Corey ddatlu'r
Nadolig gyda theulu Corey yn America.
Gobeithio'n fawr eu bod wedi mwynhau
eu hunain a chael amser da. Mae'n braf
cael eu croesawu nôl. Gweddiwn dros
Catrin yn ei gwaith. Dros yr wythnosau
diwethaf mae wedi cael croeso mawr yn
ysgolion y fro, ac ar ddechrau'r tymor
newydd mae'n edrych ymlaen at ragor o
gyfleoedd i wasanaethu'r eglwysi.